Comisiwn Ffiniau i Gymru
Boundary Commission for Wales

**DATGANIAD I'R CYFRYNGAU**

**Embargo tan 0001 awr**
**Dydd Mercher, 11 Ionawr 2012**

**Heddiw, mae Comisiwn Ffiniau i Gymru yn lansio ei ymgynghoriad cychwynnol yn gofyn i bobl am eu barn wrth iddo rannu ei gynigion cychwynnol ar gyfer ffiniau etholaethau Seneddol.**

Heddiw, cyhoeddodd *Comisiwn Ffiniau i Gymru* (y Comisiwn) fanylion cynhwysfawr o'i gynigion cychwynnol ar gyfer map o etholaethau diwygiedig. Mae'r lansiad yn dechrau cyfnod ymgynghori cyhoeddus o 12 wythnos, lle mae'r Comisiwn yn gofyn i bobl 'ddweud eu dweud', naill ai trwy gyflwyno cynrychiolaeth ysgrifenedig neu roi cyflwyniad llafar mewn un o bum gwrandawiad a fydd yn cael eu cynnal ledled Cymru.

Mae Deddf Systemau Pleidleisio ac Etholaethau 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i leihau nifer yr etholaethau yn y DU o 650 i 600 ac i bob etholaeth yn y DU fod â rhwng 72,810 ac 80,473 o etholwyr. Mae'r amrediad statudol hwn, ym mhob achos ond un, yn fwy o lawer na maint yr etholaethau cyfredol yng Nghymru. Er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth, mae angen lleihau nifer yr etholaethau yng Nghymru o 40 i 30, sef y newid unigol mwyaf i Gymru ers i'r Comisiwn Ffiniau gael ei greu ym 1944. Mae Cynigion Cychwynnol y Comisiwn yn cynnwys newidiadau i bob etholaeth, gan gynnwys rhai newidiadau sylweddol. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn wedi sicrhau bod y Cynigion Cychwynnol yn cydymffurfio'n llawn â gofynion y ddeddfwriaeth.

Hoffai'r Comisiwn dynnu sylw at y ffaith, er bod ei gynigion yn bodloni'r meini prawf statudol, mae hefyd wedi ystyried ffactorau perthnasol eraill sy'n bwysig i Gymru, fel: ystyriaethau daearyddol (maint, siâp a hygyrchedd etholaeth); ffiniau llywodraeth leol; ffiniau etholaethau presennol ac unrhyw gysylltiadau lleol a fyddai'n cael eu chwalu trwy newid etholaethau.

Heddiw, dywedodd Ben Whitestone, Ysgrifennydd y Comisiwn, "Mae'r Comisiwn wedi llunio cyfres o gynigion cychwynnol sy'n bodloni gofynion Deddf 2011. Hefyd, mae wedi ystyried ffactorau perthnasol eraill ac wedi ceisio dod o hyd i'r atebion mwyaf addas ar gyfer anghenion lleol yng Nghymru. Hoffwn bwysleisio mai cynigion cychwynnol yw'r rhain ac rwy'n gobeithio'n fawr y bydd y cyhoedd yn cymryd rhan yn y broses ymgynghori sy'n dechrau nawr."

Mae'r Comisiwn wedi ystyried teilyngdod nifer o ddewisiadau. O bryd i'w gilydd, nid yw atebion amlwg wedi bod yn ymarferol gan na ellir eu cymhwyso o fewn y gofyniad statudol yn ymwneud â maint yr etholaeth neu oherwydd yr effaith gynyddol ar etholaethau eraill. Yn ei gynigion cychwynnol, mae'r Comisiwn wedi ceisio dod o hyd i'r atebion mwyaf addas ar gyfer anghenion lleol yng Nghymru. Hoffai glywed barn pobl am hyn.

Aeth Ben Whitestone ymlaen I ddweud, “Heddiw, rydym yn agor yr ymgynghoriad cychwynnol.  Dros y 12 wythnos nesaf, gall pobl ysgrifennu neu anfon neges e-bost atom i roi gwybod i ni beth yw eu barn am gynigion y Comisiwn – p’un a ydynt o’u plaid neu yn eu herbyn – rydym yn awyddus i glywed barn pobl.  Lle mae pobl yn eu herbyn – yn enwedig lle gallant roi gwrthgynigion – bydd y Comisiwn yn eu hystyried yn llawn ac efallai y bydd yn diwygio ei gynigion yn unol â hynny”.

Fel rhan o’r cyfnod ymgynghori cychwynnol, mae’n ofynnol i’r Comisiwn gynnal gwrandawiadau cyhoeddus, gan roi cyfle i bobl gyflwyno cynrychiolaethau llafar am unrhyw rai o gynigion cychwynnol y Comisiwn a chyflwyno unrhyw wrthgynigion. Mae lleoliadau, mannau cyfarfod a dyddiadau’r 5 gwrandawiad cyhoeddus sydd i’w cynnal ledled Cymru fel a ganlyn:

| **Lleoliad** | **Man cyfarfod** | **Dyddiad** |
|---|---|---|
| Abertawe | Stadiwm Liberty | 15-16 Chwefror 2012 |
| Caerdydd | Stadiwm y Mileniwm | 22-23 Chwefror 2012 |
| Wrecsam | Prifysgol Glyndŵr | 29 Chwefror – 1 Mawrth 2012 |
| Caernarfon | Gwesty’r Celtic Royal | 7-8 Mawrth 2012 |
| Llandrindod | Y Pafiliwn | 20-21 Mawrth 2012 |

Mae gofyn i’r rhai sy’n dymuno cyflwyno cynrychiolaethau llafar yn unrhyw un o’r gwrandawiadau uchod gysylltu â’r Comisiwn trwy neges e-bost yn comffin.cymru@cymru.gsi.gov.uk neu drwy ffonio 029 2039 5031, gan gadarnhau dyddiad a’r amser y byddai’n well ganddynt gyflwyno eu cynrychiolaethau.  Bydd y Comisiwn yn ysgrifennu at bawb sy’n cyflwyno cais â rhagor o wybodaeth am y gwrandawiadau ac i ddyrannu amser penodol iddynt siarad.  Os nad yw’n bosibl cynnwys yr holl gynrychiolaethau mewn un lleoliad penodol, bydd y lleoliad agosaf arall yn cael ei gynnig.

Caiff yr holl gynrychiolaethau eu cyhoeddi’n ddiweddarach (yn Gymraeg a Saesneg) ac yna caiff ‘ail gyfnod ymgynghori’ ei gynnal.

Bydd y Comisiwn yn cyflwyno ei gynigion terfynol erbyn mis Hydref 2013.

Mae manylion llawn ar gael yn **www.comffin-cymru.gov.uk.**

Am ymholiadau eraill gan y cyfryngau, cysylltwch â ni ar 029 2064 6840 neu drwy anfon neges e-bost at **comffin.cymru@cymru.gsi.gov.uk.**

**DIWEDD**

***Nodiadau i olygyddion***

1. Mae Comisiwn Ffiniau i Gymru (‘y Comisiwn’) yn gorff cyhoeddus annibynnol a diduedd sy’n gyfrifol am gynnal arolygon cyfnodol o ffiniau etholaethau Seneddol yng Nghymru trwy argymell newidiadau i’r Senedd.

2. Cyhoeddodd y Comisiwn Ffiniau Seneddol i Gymru Arolwg 2013 o Etholaethau Seneddol yng Nghymru ym mis Mawrth 2011. Cyhoeddwyd cynigion cychwynnol y Comisiwn ar 11 Ionawr 2012 ac mae’r dyddiad hwn yn nodi dechrau cyfnod ymgynghori o 12 wythnos.

3. Mae’r Comisiwn wedi crynhoi ei gynigion cychwynnol fel a ganlyn:

- Cwota etholiadol y Deyrnas Unedig yw 76,641 â goddefiant o rhwng 95% a 105% o’r ffigur hwn (72,810 ac 80,743 yn ôl eu trefn). Nifer gyfartalog yr etholwyr yn y 40 etholaeth bresennol yng Nghymru yw 57,040. Ar hyn o bryd, mae 39 etholaeth yn is na nifer leiaf yr etholwyr ac mae un ohonynt (Cardiff South and Penarth BC) yn disgyn o fewn yr amrediad statudol. Dan y cynigion, byddai pob etholaeth o fewn yr amrediad statudol, gyda 19 ohonynt yn is na’r cwota etholiadol ac 11 ohonynt yn uwch na’r cwota etholiadol.
- Y gynigion ar gyfer etholaethau Seneddol newydd, yw: Menai ac Ynys Môn; Gwynedd; Ceredigion and North Pembrokeshire; South and West Pembrokeshire; Caerfyrddin; Llanelli; Gower and Swansea West; Swansea East; Neath; Aberavon and Ogmore; Bridgend; The Vale of Glamorgan; Cardiff West; Cardiff Central and Penarth; Cardiff East; Caerphilly and Cardiff North; Newport West and Sirhowy Valley; Newport Central; Monmouthshire; Torfaen; Blaenau Gwent; Heads of the Valleys; Rhondda; Pontypridd; South Powys; Glyndwr and North Powys; Wrexham Maelor; Alyn and Deeside; Dee Estuary; ac North Wales Coast.
- Byddai 15 etholaeth bresennol wedi’u cynnwys yn llawn mewn etholaeth newydd (Alyn and Deeside, Blaenau Gwent, Brecon and Radnorshire, Bridgend, Cardiff West, Ceredigion, Dwyfor Meirionnydd, Llanelli, Merthyr Tydfil and Rhymney, Neath, Rhondda, Torfaen, Vale of Glamorgan, Wrexham ac Ynys Môn).
- Dan y cynigion, byddai chwe awdurdod unedol wedi’u cynnwys yn llawn mewn etholaeth newydd (Blaenau Gwent, Ceredigion, Ynys Môn, Merthyr Tudful, Sir Fynwy a Thorfaen). Mewn egwyddor, mae 7 awdurdod unedol yng Nghymru sy’n disgyn islaw’r amrediad etholiadol statudol, ac felly gellid eu cynnwys yn llawn mewn etholaeth newydd. Blaenau Gwent, Ceredigion, Sir Ddinbych, Ynys Môn, Merthyr Tudful, Sir Fynwy a Thorfaen yw’r rhain.
- Byddai chwe etholaeth dros 1,000 $km^2$ (Caerfyrddin, Ceredigion and North Pembrokeshire, Glyndwr and North Powys, Gwynedd, South and West Pembrokeshire, a South Powys). Byddai tair o’r etholaethau hyn rhwng 2,000 a 3,000 $km^2$ (Caerfyrddin, Ceredigion and North Pembrokeshire, a Glyndwr and North Powys), a dwy etholaeth dros 3,000 $km^2$ (Gwynedd a South Powys).
- Byddai 10 o’r enwau presennol yn cael eu cadw.

- Byddai 877 o'r 881 o adrannau etholiadol yng Nghymru wedi'u cynnwys yn llawn mewn etholaeth newydd. Ystyriwyd ei bod yn briodol gwahanu pedair adran etholiadol er mwyn cadw at Reolau 2 a 5 (Llansamlet, Penycae and Ruabon South, Ponciau a Tremeirchion).

4. Hoffai'r Comisiwn bwysleisio bod y cynigion cychwynnol hyn yn ymwneud ag etholaeth Seneddol yn unig ac nid ydynt yn effeithio ar etholaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru, strwythur na threfniadau llywodraeth leol na'r gwasanaethau y maent yn eu darparu.

5. Mae'r cyfnod ymgynghori cychwynnol yn para 12 wythnos o 11 Ionawr 2012 hyd 23.59 awr ar 4 Ebrill 2012. Rhaid i gynrychiolaethau yn ymwneud â'r cynigion gael eu derbyn cyn 5 Ebrill 2012. Dylai cynrychiolaethau gael eu hanfon at y Comisiwn Ffiniau i Gymru, Tŷ Caradog, 1-6 Plas Sant Andreas, Caerdydd CF10 3BE, eu ffacsio i 029 2039 5250, neu eu hanfon mewn neges e-bost at comffin.cymru@cymru.gsi.gov.uk**.**

6. Gall cynrychiolaethau ysgrifenedig a llafar gael eu cyflwyno yn Gymraeg neu Saesneg. Bydd y Comisiwn yn cyfieithu'r holl gynrychiolaethau ysgrifenedig er mwyn iddynt fod ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael yn y gwrandawiadau cyhoeddus.

7. Ceir manylion llawn am Arolwg 2013 a sut i gymryd rhan yn y llyfryn gwybodaeth sydd ar gael yn **www.comffin-cymru.gov.uk.**

8. Am ymholiadau eraill gan y cyfryngau, cysylltwch â Marc Evans neu Jonathan Ellis ar 029 2064 6840 neu drwy anfon neges e-bost at **comffin.cymru@cymru.gsi.gov.uk.**